Sul y Cofio

Darlleniad: Salm 46

> ‘Bydd ef yn barnu rhwng cenhedloedd ac yn torri’r ddadl i bobloedd cryfion o bell; byddant hwy’n curo’r cleddyfau’n geibiau, a’u gwaywffyn yn grymanau. Ni chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac ni ddysgant ryfel mwyach...’

Arglwydd Dduw, diolchwn i ti am y ddawn i gofio, er bod cofio ar adegau’n gallu bod yn boenus. Cwyd ni uwchlaw pob dim sy’n negyddol a rhwysgfawr mewn perthynas â’r dydd hwn a chyfeiria ni yn hytrach i sicrhau cymod a gwell dealltwriaeth yn ein byd. Helpa ni i ddysgu o gamgymeriadau ddoe ac ymdrechu i sicrhau yfory mwy heddychlon.

Ar Sul y Cofio, diolchwn i ti am bob dim sy’n gwneud bywyd yn werthfawr a diogel a bendithiol: y rhyddid a fwynhawn; y cymod sy’n deillio o’n parodwydd i ystyried gwahaniaeth barn heb orfodi eraill i gydymffurfio â ni; y cyfle i ailadeiladu ac ail-greu wedi dioddefaint a dinistr.

Diolchwn i ti am y rhai fu’n gyfryngau i sicrhau’r rhyddid hwn, y rhai drwy eu haberth a’u gwroldeb a roes inni waddol mor sylweddol. Na ad inni ddibrisio’u hymdrech hwy, a phâr i deuluoedd y golled brofi o’r newydd heddiw o’th gysur a’th dangnefedd di.

Diolchwn i ti am y rhai hynny a luniodd drwy eu dawn a’u gallu ein hanes a’n treftadaeth ni, ac am y rhai hynny drwy eu gweledigaeth a’u dycnwch a gynlluniodd yn fedrus a doeth ar gyfer ein hyfory.

Wrth inni ddwyn i gof yr hyn a wnaed trosom ni, gad inni ganfod y pethau hynny y mae’n rhaid inni eu sicrhau yn ein dydd

a'n cyfnod - y pethau hynny y mae'n byd yn amddifad ohonynt, ac yn dal heb eu sylweddoli eto. Clyw gri ein byd ac arwain ni i geisio ymateb iddo.

Cofiwn am y trais a'r cweryla, y gorthrwm a'r tensiynau, y rhwygiadau a'r chwerwedd sy'n parhau i greu anghydfod a rhyfeloedd yn ein byd. Gweddïwn iti faddau inni ein methiant i fyw'n gytûn.

Cofiwn am yr apostolion heddwch hynny mewn llawer gwlad sy'n ymdrechu'n egnïol i wireddu'r freuddwyd a'r broffwydoliaeth y mae'r proffwyd Micha yn ei harddel, fel na chyfyd cenedl gleddyf na gwn nac unrhyw rym dinistriol yn erbyn cenedl, 'ac na ddysgant ryfel mwyach'.

Gweddïwn dros y rhai sydd mewn awdurdod ac mewn llywodraeth - y rhai sy'n ffurfio polisïau'r cenhedloedd ac yn abl, trwy'r awdurdod a ymddiriedwyd i'w gofal, i weithredu dros ryddid a gwirionedd.

Gwna ni'n gyfryngau dy dangnefedd a'th heddwch, a thro'n cofio yn ymgysegriad ar gyfer yfory gwell. Dysg ni i daenu dy gariad ar led ac i ymddiried ynot fel Tad bythol a Thywysog Tangnefedd. Amen.

Peter Thomas